Polisi Canu'r Gloch Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyflwyniad

1 Partneriaeth Pensiwn Cymru ("Y Bartneriaeth") yw'r trefniant cronni ar gyfer asedau wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (yr "Awdurdodau Cyfansoddol"). Wyth Awdurdod Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen

Cyngor Sir Gâr yw'r Awdurdod Lletya ar gyfer y Bartneriaeth.

2 Canu'r gloch yw'r weithred o ddatgelu gwybodaeth am ddrwgweithredu yn y gweithle. Y categorïau statudol ar gyfer drwgweithredu yw:

- trosedd (megis twyll yswiriant neu efadu trethi yn anghyfreithlon)
- torri unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol
- camweinyddiad cyfiawnder
- peryglu iechyd a diogelwch unigolyn
- difrod i'r amgylchedd
- cuddio gwybodaeth yn fwriadol am unrhyw un o'r uchod.

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (PIDA) 1998 yn darparu diogelwch cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu handwyo fel arall o ganlyniad i ddatgeliad a wneir mewn perthynas ag unrhyw un o'r categorïau uchod. Nid yw Aelodau Etholedig yn weithwyr cyflogedig o'r awdurdodau y maent yn eu cynrychioli.

3 Mae'r polisi hwn wedi'i lunio i roi arweiniad i Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth. Cyfeirir at y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl), y Gweithgor Swyddogion (GS) a'r Awdurdod Lletya gyda'i gilydd fel "Personél y Bartneriaeth", ynghyd ag ymgynghorwyr a chyflenwyr ("Darparwyr"). Mae'r CLl yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolydd wedi'i gyfethol (heb bleidlais) o'r cynllun aelodau. Mae'r GS yn cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

4 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob tair blynedd, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi gerbron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.

Sut i godi pryder

5 Dylai swyddogion yr Awdurdodau Cyfansoddol gyfeirio at Bolisi Canu'r Gloch eu Hawdurdod unigol.

6 Dylai Darparwyr Allanol gyfeirio at Bolisi Canu'r Gloch eu cwmni.

7 Dylai aelodau etholedig godi unrhyw bryderon drwy eu Hawdurdodau Cyfansoddol drwy gysylltu â'u swyddogion / dirprwy swyddogion A151 / monitro .

8 Gall aelodau etholedig hefyd godi pryderon drwy gysylltu â'r Awdurdod Lletya / Cyngor Sir Gâr yn uniongyrchol, naill ai drwy

- gysylltu â'r Awdurdod Lletya drwy gyfeiriad e-bost y Bartneriaeth partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

  neu fel arall

- drwy anfon e-bost at flwch post cyfrinachol Canu'r Gloch Cyngor Sir Gâr CEWhistleBlowing@carmarthenshire.gov.uk.
  Mae Swyddog Monitro a Dirprwy Swyddog Monitro Cyngor Sir Gâr yn monitro'r blwch post hwn.

Byddant wedyn yn darparu arweiniad.

Gwybodaeth Bellach

9 Os ydych angen unrhyw fanylion pellach am Bolisi Canu'r Gloch y Bartneriaeth, cysylltwch â partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Fersiwn 1.0

Mai 2022